Gwasanaeth **Mabwysiadu** Cenedlaethol | National **Adoption** Service

# Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda’n Gilydd

# Cyflwyniad i Wrthwynebedd Di-drais ar gyfer delio gyda Thrais Plentyn i Riant

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service



# Deilliannau Dysgu

Erbyn diwedd y cwrs hwn, bydd cyfranogwyr wedi:-

- Cynyddu eu dealltwriaeth o pam y gallai plant sydd wedi profi trawma arddangos ymddygiad ymosodol a threisgar
- Ystyried sut mae’r ymennydd yn gweithio a sut mae hyn yn effeithio ar ddatblygiad ac ymddygiad plentyn
- Nodi lle mae Gwrthwynebedd Di-drais yn ffitio ochr yn ochr ag ymyriadau therapiwtig
- Deall yr angen i addasu ein ymddygiad a’n cyfathrebu ein hunain er mwyn dylanwadu ar ymddygiad a chyfathrebu plant a phobl ifanc yn ein gofal

# Tu Hwnt i’r Gorchymyn Mabwysiadu (Selwyn, J et al; DfE 2014)

- Astudiaeth genedlaethol gyntaf o fethiannau mabwysiadu
- Lle cafwyd methiant wrth fabwysiadu, roedd y plentyn yn hŷn (3+) yn dechrau derbyn gofal, ac roedd canran uchel wedi profi camdriniaeth a/neu esgeulustod
- Arddegwyr (11-16) ddeg gwaith yn fwy tebygol o amharu
- Mae dicter ac ymddygiad treisgar yn ystod llencyndod yn cyflwyno her fawr i deuluoedd mabwysiadol
- Adroddwyd am CPV (Trais Plentyn tuag at Riant) gan 57% o deuluoedd oedd yn rhan o’r ymchwil
- Trais tuag at rieni a brodyr/chwiorydd oedd y prif reswm(80%) pam fod rhaid i bobl ifanc adael y cartref

# Trais Plentyn tuag at Riant – safbwynt y rhieni

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Rhoddodd rieni nifer o enghreifftiau o gael eu taro, profi ymosodiad, gael eu bygwth a'u dychryn, gyda chyllyll yn cael eu defnyddio mewn rhai achosion.

Roedd pobl ifanc yn bennaf yn dreisgar tuag at eu mamau, ond roedd tadau a brodyr/chwiorydd hefyd wedi dioddef ymosodiad.

Roedd rhieni hefyd yn ceisio rheoli pobl ifanc oedd yn hunan-niweidio a/neu yn rhedeg i ffwrdd.

# Rhieni Taer!

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Cadarnhaodd yr adroddiad Selwyn fod cyfradd methiannau yn is na’r disgwyl, ond hefyd, datgelodd ddarlun clir o’r problemau a wynebir gan deuluoedd.

Dangosodd dadansoddiad manwl o amgylchiadau 70 o deuluoedd fod y gyfradd amhariad/methiant disgwyliedig is yn deillio o ymrwymiad a dycnwch rhieni oedd yn parhau i gefnogi eu plant mewn amgylchiadau heriol iawn, yn aml gydag ychydig iawn o gefnogaeth gan unrhyw wasanaethau.

# Therapïau, Ymyriadau, Strategaethau

Thera-chwarae, Integreiddio a phrosesu synhwyraidd, PACE a Seicotherapi Datblygiaduol Dyadic Dan Hughes, Seicotherapi Niwr-ffisiolegol, Dulliau Somatig, “Methiant Ymddygiad Mawr” Bryan Post, Dan Siege, Therapi Ceffylau, REM ac EMDR, Therapi Drama, Therapi Celf, Therapi Cerddoriaeth, Therapi Ffilial, Ymwybyddiaeth Ofalgar, Cwnsela, Ail-rianta datblygiadol, P Triphlyg, Blynyddoedd Anhygoel, Sylfaen Ddiogel, Sylfaen Saff, Rhianta ein Plant, Therapi Chwarae, Cyswllt, Gwaith Taith Bywyd, Seicotherapi, CAMHS, Therapi Galwedigaethol, Cefnogaeth addysgol

# Arolwg BBC File on Four/Adoption UK (Medi 2017)

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Arolwg o 2778 o rieni mabwysiadol

Mae mwy na chwarter o deuluoedd mabwysiadol “mewn argyfwng”

Mae bron i hanner y teuluoedd mewn sefyllfa “heriol ond sefydlog”

Mae ychydig dros chwarter yn “fodlon ac yn sefydlog”


Mae’r rhan fwyaf o deuluoedd sy’n ymateb yn dweud eu bod “yn byw gyda thrais parhaus a difrifol” gan eu plant

Dywedodd nifer llethol o ymatebwyr eu bod yn falch eu bod wedi mabwysiadu

https://www.adoptionuk.org/news/bbcadoption-uk-survey-snapshot-modern-day-adoption

# Dan Siegel
# Model Llaw o'r Ymennydd

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service



# Gwrthwynebedd Di-drais
# Rhan coll o'r jig-so?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service



# Nodweddion Allweddol Gwrthwynebedd Di-drais (1)

Mae Gwrthwynebedd Di-drais yn ymwneud â:-

- Rhieni yn newid eu hymddygiad
- Modelu “ymatebion” priodol (yn hytrach nag “ymatebion” plwc pen-glin)
- Dysgu ymateb i’r ANGEN nid i’r YMDDYGIAD
- Dyma’r “newid paradeim” y mae Bryan Post yn siarad amdano

# Nodweddion Allweddol Gwrthwynebedd Di-drais (2)

Newid y berthynas nid y plentyn

Cynyddu presenoldeb rhieni

Adeiladu rhwydwaith cefnogi

Cyrsiau ar gyfer rhieni ac aelodau eraill o'r rhwydwaith cefnogi

Cynllunio/ymarfer gofalus (e.e. "y cyhoeddiad")

Ar ôl y cwrs – 'Grŵp Cefnogi NVR Rhieni' misol - parhad

"curo tra bo'r haearn yn oer"

"am nawr"


Cael gwared ar y tabŵ o ran trais plentyn tuag at riant

# Pa ymddygiadau sy’n eich poeni?

Sefyllfoedd lle mae plant a phobl ifanc yn arddangos:-

- Trais llafar
- Bygythiadau o drais
- Trais gwirioneddol tuag at rieni, gofalwyr neu frodyr/chwiorydd
- Rhedeg i ffwrdd
- Chwarae triwant
- Dwyn
- Cymryd cyffuriau
- Defnyddio alcohol
- Ymwneud â throseddu
- Rhoi ei hunain mewn perygl mewn amgylchoedd peryglus y tu allan i’r cartref

# Map Gwrthwynebedd Di-drais



# Manteision mynychu cwrs Gwrthwynebedd Di-drais

Nid yw rhieni'n 'teimlo'n unig' mwyach

Mae rhieni'n cefnogi ei gilydd

Mae grŵp y cwrs yn dod yn 'gefnogwr' ynddo ei hun

Mae rhieni yn creu eu rhwydwaith cefnogi eu hunain

Defnydd effeithlon o amser gwaith cymdeithasol yn cefnogi nifer o deuluoedd ym mhob sesiwn

Mae rhieni'n dod yn gyd-hwyluswyr ar gyfer grwpiau Gwrthwynebedd Di-drais y dyfodol

Mae’r cwrs hwn yn rhan o gyfres a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i gefnogi mabwysiadwyr ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.

Gellir dod o hyd i’r rhain ar wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Siaradwch gyda’ch tîm cefnogi mabwysiadu am ragor o wybodaeth